

Rhaglen INTERREG Ewrop 2014-2020

Nodyn Cyfarwyddyd - Llythyr o Gefnogaeth Ar gyfer partneriaid wedi eu seilio yng Nghymru

Mae angen bod pob prosiect INTERREG Ewrop 2014-2020 wedi ei gefnogi gan y sefydliad perthnasol sy'n gyfrifol am y maes polisi penodol hwnnw o fewn y rhanbarth. Fe fydd y sefydliad perthnasol yn wahanol o wlad i wlad ac os oes angen llythyr o gefnogaeth, fe fydd y broses o sicrhau llythyr hefyd yn gwahaniaethu.

Dyma'r trefniant ar gyfer sefydliadau yng Nghymru:

- Os yw'r partner **yn gyfrifol** ar gyfer y maes polisi sef pwnc y cais ar gyfer Rhaglen INTERREG Ewrop, er enghraifft all y partner fod yn adran o Lywodraeth Cymru neu yn Awdurdod Lleol yng Nghymru, ni fydd yn ofynnol ar y sefydliad i atodi llythyr o gefnogaeth.
- Os **nad** yw'r partner yn gyfrifol ar gyfer y maes polisi, fe fydd yn ofynnol arnynt i sicrhau llythyr o gefnogaeth. Os ydych yn bartner sydd angen llythyr o gefnogaeth, cysylltwch â'r Uned Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd gan e-bostio territorialcooperation@cymru.gsi.gov.uk

Uned Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Gorffennaf 2015